*__Statws__ This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Darpariaeth mewn gorchmynion: cyfyngiadau a phwerau penodol*

### 81 Harbyrau

(1) Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth i greu awdurdod harbwr onid—

(a) adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, neu ei fod yn cynnwys hynny, a

(b) yw creu awdurdod harbwr yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y datblygiad.

(2) Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n newid pwerau neu ddyletswyddau awdurdod harbwr onid—

(a) adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, neu ei fod yn cynnwys hynny, a

(b) yw'r awdurdod wedi gofyn am i'r ddarpariaeth gael ei chynnwys neu wedi cydsynio yn ysgrifenedig iddi gael ei chynnwys.

(3) Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi trosglwyddo eiddo, hawliau neu atebolrwyddau o un awdurdod harbwr i un arall onid—

(a) adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, neu ei fod yn cynnwys hynny, a

(b) yw'r gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu swm digolledu—

(i) a bennir yn unol â'r gorchymyn, neu

(ii) y cytunir arno rhwng y partïon i'r trosglwyddiad.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (6), caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer creu awdurdod harbwr, neu newid pwerau neu ddyletswyddau awdurdod harbwr, hefyd wneud darpariaeth arall mewn perthynas â'r awdurdod.

(5) Yn ddarostyngedig i is-adran (6), mae'r ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn perthynas ag awdurdod harbwr yn cynnwys yn benodol—

- (a) unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas ag awdurdod harbwr y gellid ei chynnwys mewn gorchymyn diwygio harbwr o dan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964 (p. 40) yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno;
- (b) darpariaeth sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod i newid darpariaeth a wnaed mewn perthynas ag ef (gan y gorchymyn neu yn rhinwedd y paragraff hwn), pan fo'r ddarpariaeth ynghylch—
  - (i) gweithdrefnau (gan gynnwys gweithdrefnau ariannol) yr awdurdod;
  - (ii) pŵer yr awdurdod i osod ffioedd;
  - (iii) pŵer yr awdurdod i ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau;
  - (iv) lles swyddogion a chyflogeion yr awdurdod a darpariaeth ariannol a darpariaeth arall a wneir ar eu cyfer.

(6) Ni chaiff y gorchymyn gynnwys darpariaethau—

- (a) na chaniateir iddynt, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon, gael eu cynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith;
- (b) sy'n rhoi pŵer i awdurdod harbwr i ddirprwyo, neu wneud newidiadau i'w bwerau er mwyn caniatáu dirprwyo, unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (f) o baragraff 9B o Atodlen 2 i Ddeddf Harbyrau 1964.